


# Coleg Gŵyr Abertawe


## Gwasanaethau Llyfrgell Hygyrch

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Mae ein llyfrgelloedd yma i helpu a chefnogi pob un o ddysgwyr Coleg Gŵyr Abertawe.

Mae pob dysgwr eisiau pethau gwahanol o'r llyfrgell a staff y llyfrgell, ac rydyn ni bob amser yn gwneud ein gorau i wneud yn siŵr ein bod yn diwallu eich anghenion dysgu.

Mae'r tudalennau isod yn rhoi esiamplau o'r mathau o wasanaethau hygyrch rydym yn eu cynnig i'ch cefnogi chi.





## Darllenwyr Sgrin (Tycoch)

Mae Darllenwyr Sgrin yn eich galluogi i chwyddo testun, newid lliw tudalennau a'u goleuo.




## Troshaenau Lliw

Gallwch roi'r rhain ar ben tudalennau i newid eu lliw i'w darllen.





## Desgiau y gellir newid eu huchder

Ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn neu'r rhai sydd rhaid iddynt sefyll wrth weithio tu ôl i gyfrifiaduron.




## Lifft

Gellir cael mynediad i'n llyfrgelloedd drwy ddefnyddio rampiau a lifftiau.





## eDdarllen

Mae'r feddalwedd rydyn ni'n ei defnyddio ar gyfer darllen eLyfrau ac eGyfnodolion ar-lein yn eich caniatáu i newid maint ffont a lliw tudalennau.




## Cymorth un-i-un

Mae gan bob llyfrgell Gynorthwywyr a Chynghorwyr i roi help llaw a darparu cymorth o ran astudio.



## Mannau Dysgu Tawel

Mae gan lawer o'n llyfrgelloedd fannau tawel lle gall ddysgwyr weithio yn unigol mewn tawelwch.




## Llyfrau ar gyfer ystod eang o Lefelau Darllen

Mae gennym lyfrau ar gyfer unigolion o bob lefel, ac i'r rhai sydd yn dymuno gwella eu llythrennedd a'u sgiliau iaith Saesneg.



**Gwneud cais am lyfrau ledled y campysau**

Gallwch wneud cais i storio llyfrau mewn unrhyw un o lyfrgelloedd y coleg i wneud hi'n haws i chi eu casglu.



**Siarad â staff**

Gallwch siarad â staff mewn gwahanol ffyrdd: wyneb yn wyneb, cyfryngau cymdeithasol, e-bost, ar y ffôn neu trwy ddefnyddio ffurflenni adborth dienw.

Byddem wrth ein bodd yn clywed unrhyw adborth sydd gennych am yr isod,

- yr hyn rydych chi'n hoffi am ein llyfrgelloedd
- yr hyn y gallem ei wneud yn well
- pa offer neu lyfrau fyddai'n ddefnyddiol eu cael yn y llyfrgell

**Ffurflen Adborth Ar-lein:**
https://forms.office.com/r/xdzaF3NQF1
**Ebost:** library@gcs.ac.uk
**Ffôn:** Prif Dderbynfa Tycoch (01792) 284133
Gorseinon (01792) 890731
Llwyn Y Bryn (01792) 284335